Gofal Canser yn y DU:
Welsh

# Gofal Canser yn y DU

Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â gofal canser a system gofal iechyd y DU, a ble i gael cymorth a chefnogaeth.

Gall fod yn anodd gwybod beth i'w ddisgwyl gan y system gofal iechyd yn y DU. Mae'r dudalen hon yn egluro eich hawliau a sut i gael mynediad at ofal iechyd ar gyfer canser a chyflyrau eraill.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y wybodaeth hon, gallwch ofyn i'ch meddyg neu nyrs yn yr ysbyty lle rydych yn cael eich triniaeth.

Gallwch hefyd ffonio Cymorth Canser Macmillan ar **0808 808 00 00**, 7 diwrnod yr wythnos rhwng 8am a 8pm. Mae gennym gyfieithwyr, fel y gallwch siarad â ni yn eich iaith eich hun. Pan fyddwch yn ein ffonio, dywedwch wrthym yn Saesneg pa iaith yr ydych ei hangen.

Mae yna ragor o wybodaeth ar ganser mewn ieithoedd eraill ar **macmillan.org.uk/translations**

## Mae'r wybodaeth hon yn trafod:

- System gofal iechyd y DU
- Os ydych yn defnyddio iaith arall
- Gofal Canser yn y DU
- Eich hawliau fel claf GIG yn y DU
- Helpu eich tîm i ddeall eich diwylliant neu gefndir
- A allaf ddewis ble i gael triniaeth canser?
- A allaf ddewis pa driniaeth canser a gaf?
- A allaf gael ail farn?
- A allaf gwyno am fy ngofal iechyd?
- Sut y gall Macmillan eich helpu chi
- Mwy o wybodaeth yn Gymraeg
- Cyfeiriadau a diolchiadau

# System gofal iechyd y DU

Darperir y rhan fwyaf o ofal iechyd yn y DU gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae'r GIG yn cynnwys:

**Meddyg Teulu a gofal yn y gymuned**
Mae Meddyg Teulu yn feddyg sy'n trin cyflyrau iechyd cyffredinol. Mae meddygon teulu fel arfer yn gweithio mewn canolfan leol. Yn Saesneg, gall y math hwn o ganolfan gael enwau gwahanol. Gellir ei alw'n GP practice, GP surgery neu medical centre. Y ganolfan hon yn aml yw eich pwynt cyswllt cyntaf a'ch prif bwynt cyswllt ar gyfer gofal iechyd. Maen nhw'n gweithio'n agos gyda gwasanaethau eraill yn y gymuned fel nyrsys ardal a thimau gofal lliniarol

Mae eich meddyg teulu a gwasanaethau eraill yn y gymuned yn trin ac yn rheoli llawer o broblemau iechyd. Os oes angen triniaeth fwy arbenigol arnoch, gallant drefnu hyn i chi. Gelwir hyn yn gwneud atgyfeiriad.

**Gofal brys a gofal mewn argyfwng**
Mae hyn yn cynnwys:

- cymorth brys ar gyfer cyflyrau sy'n bygwth bywyd os byddwch yn ffonio 999
- gofal mewn adran damweiniau ac achosion brys, neu ganolfan gofal brys arall megis canolfan galw i mewn neu uned mân anafiadau
- cyngor am broblemau iechyd brys os byddwch yn ffonio 111 (yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban).

**Gofal arbenigol**
Ar gyfer rhai cyflyrau iechyd, efallai y bydd angen cyngor neu driniaeth arnoch gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol. Pan fyddwch yn aros yn yr ysbyty am driniaeth arbenigol, gelwir hyn yn ofal claf mewnol. Pan fyddwch yn cael triniaeth arbenigol mewn clinig, neu gartref, gelwir hyn yn ofal claf allanol.

**Fferyllwyr**
Mae fferyllwyr yn dosbarthu meddyginiaethau ac yn rhoi cyngor ar gymryd meddyginiaethau. Gallant hefyd roi rhywfaint o gyngor meddygol.

**Gofal deintyddol**
Mae deintyddion yn helpu i ofalu am eich dannedd, deintgig a rhannau eraill o'r geg.

**Gofal llygaid**
Mae optometryddion yn helpu i brofi golwg. Maen nhw'n rhagnodi ac yn gosod sbectol a lensys cyffwrdd. Maen nhw'n rhoi triniaeth a chyngor ar gyfer rhai problemau iechyd llygaid, fel heintiau llygaid.

Mae rhywfaint o ofal iechyd yn y DU ar gael yn breifat. Darperir gofal iechyd preifat gan gwmnïau annibynnol ac mae ar wahân i'r GIG. Gallwch dalu amdano eich hun, neu ddefnyddio yswiriant meddygol.

Gall gwasanaethau gofal iechyd yn y DU amrywio yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw. Gall hyn fod yn ddryslyd. Gall fod yn anodd gwybod beth sydd ar gael yn eich ardal a beth ddylid ei gynnig i chi.

Os oes gennych gwestiynau am eich gofal neu'r gwasanaethau yn eich ardal, gofynnwch i'ch meddyg teulu, neu rywun arall yn eich tîm gofal iechyd i egluro. Mae eich tîm gofal iechyd yn cynnwys unrhyw feddygon, nyrsys neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n gofalu amdanoch. Maen nhw yno i'ch helpu i ddod o hyd i'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnoch.

**A yw gofal iechyd y GIG yn rhad ac am ddim?**
Mae rhai gwasanaethau GIG bob amser am ddim i bawb. Dydych chi byth yn talu am:

- Cymorth brys ar gyfer cyflyrau sy'n bygwth bywyd os ffoniwch 999.
- Cyngor am broblemau iechyd brys os byddwch yn ffonio 111 (yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban).
- Gofal mewn adran damweiniau ac achosion brys, canolfan galw i mewn, uned mân anafiadau neu ganolfan gofal brys.
- Profi a thrin rhai mathau o heintiau a chlefydau a drosglwyddir yn rhywiol.
- Gwasanaethau atal cenhedlu.
- Triniaeth ar gyfer cyflyrau a achosir gan artaith, anffurfio organau cenhedlu benywod, a thrais domestig neu rywiol.
- Presgripsiynau, os ydych yn byw yn yr Alban.

Mae’r rhan fwyaf o wasanaethau eraill y GIG yn rhad ac am ddim os ydych fel arfer yn byw yn y DU a chyda caniatâd cyfreithiol i fyw yma. Yr enw ar hyn yw bod yn breswylydd cyffredin. Mae gofal iechyd y GIG hefyd am ddim os ydych yn ffoadur neu'n gwneud cais am loches yn y DU.

Efallai y byddwch yn dal i dalu am rai o wasanaethau’r GIG, fel gofal deintyddol a gofal llygaid. Ac yn Lloegr, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am bresgripsiynau mewn rhai sefyllfaoedd. Os na allwch dalu am y rhain, efallai y gallwch gael help gyda chostau gofal iechyd.

**Pa wasanaethau GIG sydd angen i mi dalu amdanynt?**
Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bobl dalu am ofal deintyddol a gofal llygaid. Ac yn Lloegr, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am bresgripsiynau mewn rhai sefyllfaoedd. Os na allwch dalu am y rhain, efallai y gallwch gael help gyda chostau gofal iechyd.

### Costau gofal iechyd i ymwelwyr â'r DU

Os nad ydych fel arfer yn byw yn y DU neu os ydych yn ymweld o dramor, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am ofal iechyd y GIG yn y DU.
Gallwch gael gofal iechyd am ddim gan y GIG yn yr un ffordd â phreswylydd cyffredin os ydych:

- yn ffoadur, yn ceisio lloches neu'n ddioddefwr caethwasiaeth fodern neu fasnachu mewn pobl
- wedi talu'r gordal iechyd mewnfudo.

Efallai y bydd yn rhaid i ymwelwyr eraill dalu am ofal iechyd y GIG oni bai ei fod yn fater brys.

I gael rhagor o wybodaeth am ofal iechyd i ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches gweler ein taflen ffeithiau 'Gofal Iechyd i ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches' yn **macmillan.org.uk/translations**

### Sut mae cael apwyntiad meddyg teulu?

I gael apwyntiad meddyg teulu, mae angen i chi gofrestru gyda phractis meddyg teulu. Chi sy'n dewis y feddygfa ac yn cysylltu â nhw i wneud hyn.

Mae'n bwysig cofrestru gyda phractis meddyg teulu. Dyma'ch prif bwynt cyswllt ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r practis yn deall pa wasanaethau sydd ar gael a sut mae'r rhain yn gweithio yn eich ardal. Os oes angen profion neu wasanaethau arbenigol arnoch, gall y practis drefnu'r apwyntiadau hyn.

## Os ydych yn defnyddio iaith arall

Dylai'r GIG gynnig:

- **Dehonglydd proffesiynol yn yr iaith a ddewiswch -** Mae dehonglwyr yn cyfieithu popeth y mae eich meddyg yn ei ddweud wrthych, a phopeth yr hoffech ei ddweud yn ôl. Os hoffech gael dehonglydd, dywedwch wrth eich meddygfa neu'ch ysbyty cyn gynted â phosibl. Dylai'r GIG ddefnyddio dehonglwyr proffesiynol bob amser, yn hytrach na'ch teulu neu ffrindiau. Mae hyn yn golygu y gall eich teulu ganolbwyntio ar fod yno i'ch cefnogi i wneud penderfyniad. Mae hefyd yn golygu bod llai o risg o gael gwybodaeth bwysig yn anghywir.
- **Gwybodaeth iechyd wedi'i chyfieithu -** Dylai eich tîm gofal iechyd roi gwybodaeth ysgrifenedig i chi am wasanaethau iechyd a gofal mewn iaith a fformat rydych chi'n ei ddeall.

Mae'r gwasanaethau hyn am ddim yn y GIG.

# Gofal Canser yn y DU

Yn y DU, caiff gofal canser ei reoli gan dimau arbenigol o weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Os ydych yn cael triniaeth canser, nid ydych yn debygol o gwrdd â phawb yn y tîm. Ond mae'r gwahanol weithwyr gofal iechyd proffesiynol yno i helpu i gynllunio'r gofal sydd ei angen arnoch.

Dylai fod gennych brif berson cyswllt yn eich tîm gofal iechyd. Efallai y byddan nhw'n cael eu galw'n weithiwr allweddol ac maen nhw fel arfer yn nyrs arbenigol. Byddwch yn cael eu henw a'u manylion cyswllt. Os oes gennych chi gwestiynau neu os oes angen cyngor arnoch, gallant helpu.

Mae'r tîm wedi'i leoli mewn ysbyty. Maen nhw'n darparu gofal i bobl mewn ysbytai ac mewn clinigau cleifion allanol.

Fel arfer byddwch yn cael apwyntiadau rheolaidd gydag 1 neu 2 o bobl o'r tîm sy'n gyfrifol am eich gofal. Mae'n bosibl y bydd pwy y byddwch yn cwrdd â nhw yn dibynnu ar y math o driniaeth sydd ei hangen arnoch.

Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n cwrdd â rhai o'r bobl ganlynol:

- **Llawfeddyg** – meddyg sy'n cyflawni llawdriniaethau.
- **Oncolegydd** – meddyg sy'n trin pobl sydd â chanser.
- **Haematolegydd** – meddyg sy'n gwneud diagnosis ac yn trin anhwylderau gwaed a chanserau.
- **Radiograffydd** – rhywun sy'n cynllunio ac yn rhoi radiotherapi, ac yn cefnogi pobl yn ystod triniaeth radiotherapi.
- **Nyrs glinigol arbenigol (CNS**) – nyrs sy'n rhoi gwybodaeth am ganser, a chymorth yn ystod triniaeth.

Yn aml byddwch hefyd yn cael help gan wasanaethau eraill. Gall hyn ddibynnu ar ba gymorth sydd ei angen arnoch ar adegau gwahanol. Er enghraifft, os yw canser yn achosi problemau cerdded (symudedd), efallai y bydd eich meddyg teulu, meddyg canser neu nyrs arbenigol yn eich cyfeirio at ffisiotherapydd. Dyma rywun sy'n rhoi cyngor am ymarfer corff a symudedd. Neu, os oes gennych ganser y gellir ei drin ond na ellir ei wella, efallai y byddant yn eich cyfeirio at dîm gofal lliniarol i gael mwy o gymorth. Mae timau gofal lliniarol yn helpu gyda rheoli symptomau a gofal diwedd oes.

Mae gennym fwy o wybodaeth am ofal canser yn eich iaith yn ein taflen ffeithiau 'Os ydych yn cael diagnosis o ganser'. Ewch i **macmillan.org.uk/translations**

# Eich hawliau fel claf GIG yn y DU

Gall cael eich trin am ganser eich llethu a gall fod yn ddryslyd.  Gall helpu i ddeall yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gan eich staff gofal canser a staff y GIG.

Dylai’r GIG fod ar gael yn deg ac yn gyfartal i bawb.  Os nad yw'r driniaeth sydd ei hangen arnoch ar gael yn eich ardal chi o'r DU, efallai y bydd y GIG yn trefnu i chi ei chael yn rhywle arall.  Ni ddylech gael eich trin yn annheg neu ddim cystal oherwydd eich:

- oedran
- anabledd
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol
- ailbennu rhywedd
- priodas neu bartneriaeth sifil
- beichiogrwydd
- hil
- crefydd neu gred.

**Dylai gofal y GIG fod yn iawn i bob person**
Dylai eich tîm gofal iechyd GIG gynnig gofal, cymorth a gwybodaeth i chi sy'n bodloni'ch anghenion. Dylai’r tîm ystyried beth sy’n bwysig i chi, er enghraifft eich:

- dewisiadau
- diwylliant
- credoau
- gwerthoedd.

Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eich trin fel unigolyn a pharchu eich preifatrwydd a'ch urddas. Gall hyn fod mor syml â gofyn pa enw rydych chi am gael eich galw. Mae hefyd yn golygu rhoi preifatrwydd i chi yn ystod archwiliadau corfforol.  Os byddwch chi'n gweld sefyllfa'n creu embaras neu'n peri gofid i chi, dywedwch wrth y meddyg neu'r nyrs fel y gallan nhw helpu i wneud pethau'n fwy cyfforddus i chi.

Dylai eich tîm eich cynnwys wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau am eich gofal iechyd.  Dylent roi'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnoch i wneud hyn.  Mae gennych yr hawl i dderbyn neu wrthod triniaeth a gynigir i chi.

Dylai eich tîm gyfathrebu â chi yn y ffordd sy'n iawn i chi. Dylech gael y wybodaeth sydd ei hangen arnoch mewn ffordd y gallwch ei chyrchu a'i deall.  Er enghraifft:

- **gwybodaeth mewn iaith rydych chi'n ei deall**
- **gwybodaeth mewn fformat sydd ei angen arnoch** - gallai hyn olygu mewn sain, Braille, hawdd ei ddarllen, print bras, e-bost, neu neges destun
- **cymorth i'ch helpu chi a'ch tîm i gyfathrebu** - gallai hyn fod yn ddehonglydd Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu iaith arall, neu'n gwneud pethau'n hawdd os oes gennych anghenion ychwanegol.  Gallai hyn gynnwys dibynnu ar ddarllen gwefusau, defnyddio cymorth clyw, neu fod angen amgylchedd ysgogiad isel.

**Dylai gofal y GIG fod mor ddiogel ac effeithiol â phosibl**
Mae eich tîm gofal iechyd GIG yn cynllunio eich triniaeth yn ofalus. Dylai fod gan y bobl sy'n rhoi triniaeth i chi y sgiliau a'r hyfforddiant cywir. Dylai'r lle rydych yn cael gofal fod yn ddiogel ac yn addas.

**Dylid rhoi gofal y GIG ar yr adeg gywir**
Nod y GIG yw rhoi triniaeth o fewn terfynau amser penodol. Eu nod yw asesu, gwneud diagnosis a thrin pobl â chanser neu ganser a amheuir cyn gynted â phosibl.

**Dylai'r GIG gadw gwybodaeth amdanoch yn ddiogel**
Mae'r GIG yn casglu ac yn cadw gwybodaeth amdanoch chi yn eich cofnod meddygol neu iechyd. Maen nhw'n defnyddio'r wybodaeth hon i roi gofal diogel ac effeithiol i chi.

Mae gan y GIG reolau llym i sicrhau eu bod yn cadw eich gwybodaeth yn ddiogel, yn saff ac yn gyfrinachol. Gallwch ofyn am unrhyw wybodaeth sydd gan y GIG amdanoch.

## Helpu eich tîm i ddeall eich diwylliant neu gefndir

Er mwyn rhoi'r gofal a'r driniaeth orau i chi, dylai eich tîm gofal iechyd:

- geisio deall unrhyw beth a allai effeithio ar eich penderfyniadau am eich triniaeth a'ch gofal
- gwneud yn sicr nad ydych chi dan anfantais, beth bynnag fo'ch ethnigrwydd neu ddiwylliant
- gwneud yn sicr nad yw eich diwylliant neu'ch iaith yn atal cyfathrebu a dealltwriaeth dda rhyngoch chi a'ch tîm canser.

Mae'n bosibl bod pethau'n ymwneud â'ch diwylliant neu gefndir sy'n effeithio ar sut rydych chi'n teimlo am eich triniaeth neu ofal.

Weithiau rydyn ni'n gwneud rhagdybiaethau am bobl eraill yn seiliedig ar yr hyn rydyn ni'n meddwl rydyn ni'n ei wybod amdanyn nhw. Gall y syniadau neu'r rhagfarnau hyn ein hatal rhag clywed beth mae'r person arall yn ei feddwl neu ei eisiau mewn gwirionedd. Er enghraifft, gall gweithiwr gofal iechyd proffesiynol dybio eich bod am gael eich trin mewn ffordd benodol yn seiliedig ar yr hyn y mae'n ei feddwl yw eich crefydd.
Gall y syniadau neu'r rhagfarnau hyn eu hatal rhag deall beth rydych chi'n ei feddwl neu ei eisiau.

Os nad yw eich tîm gofal iechyd yn ystyried eich anghenion, gallwch wneud y canlynol:

- Siaradwch â rhywun o'ch tîm, os yw'n teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus i wneud hynny. Weithiau efallai na fyddant yn sylweddoli bod problem. Gall rhoi adborth am hyn helpu eich tîm i wneud pethau'n iawn.
- Eglurwch beth sy'n digwydd i rywun rydych chi'n ymddiried ynddynt. Efallai y cewch gefnogaeth gan rywun agos atoch neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol yr ydych yn ei adnabod yn dda. Neu efallai y byddwch am siarad â phobl mewn grŵp cymorth canser neu ein Cymuned Ar-lein. Weithiau mae'n ddefnyddiol siarad â phobl sy'n deall neu sydd mewn sefyllfa debyg.
- Rhoi adborth neu wneud cwyn. Os nad ydych am gael eich adnabod, gallwch roi adborth a chwynion heb roi eich enw.

## Cwestiynau am driniaeth canser

**A allaf ddewis ble i gael triniaeth canser?**
Gallwch wneud dewisiadau ynghylch ble i fynd am ofal iechyd y GIG a phreifat, a pha wasanaethau yr ydych yn eu defnyddio neu y cewch eich atgyfeirio atynt. Ond efallai mai dim ond mewn rhai ysbytai y bydd triniaethau canser ar gael.

Gall yr opsiynau y gallwch ddewis ohonynt fod yn wahanol ym mhob ardal o'r DU. Gallant hefyd ddibynnu ar sut mae cyllid y GIG yn gweithio yn yr ardal honno. Gall eich meddyg teulu, meddyg canser neu nyrs roi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

Os byddwch yn gofyn am gael eich atgyfeirio i ysbyty neu arbenigwr canser penodol, gallai hyn effeithio ar ba mor hir y byddwch yn aros am apwyntiad. Efallai y byddwch yn aros yn hirach am apwyntiad gydag arbenigwr neu i ddechrau triniaeth canser.

**A allaf ddewis pa driniaeth canser a gaf?**
Gwneir penderfyniadau am eich triniaeth canser ar y cyd â'ch tîm gofal iechyd. Ni fyddant yn rhoi triniaeth i chi oni bai eich bod yn cytuno iddi. Gelwir hyn yn rhoi eich caniatâd.

Bydd eich tîm yn cynnig y triniaethau y mae'n meddwl sydd orau yn eich sefyllfa. Mae hyn yn golygu'r triniaethau mwyaf effeithiol a lleiaf niweidiol sydd ar gael.

Os ydych yn anghytuno â'r cynllun triniaeth a gynigir i chi, dywedwch wrth eich tîm gofal iechyd pam fod hyn. Gofynnwch i'ch tîm gofal iechyd esbonio eto pam y cynigiwyd y triniaethau hyn i chi.

Mae penderfyniadau triniaeth yn aml yn gymhleth ac yn seiliedig ar sawl ffactor, gan gynnwys cyflyrau meddygol eraill a allai fod gennych. Mae'n bwysig i chi a'ch tîm gofal iechyd ddeall yr holl ffactorau hyn. Gall trafod hyn yn ofalus ac yn glir eich helpu chi a'ch tîm gofal iechyd i ddod o hyd i gynllun triniaeth sy'n gweithio i chi.

Os na allwch wneud penderfyniadau am eich triniaeth, neu os nad ydych am wneud hynny, dylai'r tîm gynnwys rhywun agos atoch. Gall hyn fod yn aelodau o'ch teulu neu'ch ffrindiau.

**A allaf gael ail farn?**
Mae ail farn yn golygu gofyn i feddyg teulu neu feddyg canser gwahanol a ydynt yn cytuno â'ch diagnosis neu driniaeth.  Mae diagnosis yn golygu darganfod os oes gennych salwch ai peidio. Mae ail farn fel arfer yn golygu mynd i ysbyty neu feddygfa wahanol. Mae'n bwysig meddwl am fanteision ac anfanteision posibl cael ail farn. Siaradwch â'ch tîm am sut y gallai effeithio ar eich lles.

Gallwch ofyn i'ch meddyg canser eich cyfeirio am ail farn. Nid oes rhaid i'r GIG roi ail farn.  Ond mae gennych hawl i ofyn am un a bydd y rhan fwyaf o feddygon yn hapus i'ch atgyfeirio.

**A allaf gwyno am fy ngofal iechyd?**
Mae llawer o bobl yn hapus gyda'r driniaeth a'r gofal a gânt gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol.  Ond weithiau mae camgymeriadau'n digwydd, neu mae pethau'n mynd o chwith.  Os ydych yn anhapus â'r driniaeth a gawsoch, mae gennych hawl i gwyno.

Fel arfer mae'n well siarad â'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol dan sylw. Ond gallwch chi hefyd siarad â rhywun arall yn y tîm gofal iechyd.

Os penderfynwch wneud cwyn ffurfiol, ceisiwch ddarganfod mwy am y drefn gwyno. Mae hyn yn wahanol mewn gwahanol ardaloedd o'r DU.  Gofynnwch i'ch darparwr gofal iechyd am gopi o'r broses.  Neu gallwch fel arfer ddod o hyd i wybodaeth ar-lein.

## Cael y gofal a'r cymorth cywir i chi

Os oes gennych ganser a ddim yn siarad Saesneg, efallai eich bod yn poeni y bydd hyn yn effeithio ar eich triniaeth a'ch gofal canser. Ond dylai eich tîm gofal iechyd gynnig gofal, cymorth a gwybodaeth i chi sy'n bodloni'ch anghenion.

Gwyddom y gall pobl wynebu heriau ychwanegol weithiau wrth gael y cymorth cywir. Er enghraifft, os ydych yn gweithio neu os oes gennych deulu, gall fod yn anodd dod o hyd i amser i fynd i apwyntiadau ysbyty. Efallai y bydd gennych bryderon hefyd am arian a chostau cludiant. Gall hyn i gyd fod yn straen ac yn anodd ymdopi ag ef.

Rydym hefyd yn cynnig Grantiau Macmillan i bobl â chanser. Mae’r rhain yn daliadau untro y gellir eu defnyddio ar gyfer pethau fel parcio mewn ysbyty, costau teithio, gofal plant neu filiau gwresogi.

Gall ein llinell gymorth am ddim **0808 808 00 00** gynnig cyngor, yn eich iaith, am eich sefyllfa. Gallwch siarad â nyrsys, pobl sy'n cynnig canllawiau ariannol, cynghorwyr hawliau lles a chynghorwyr cymorth gwaith.

## Sut y gall Macmillan eich helpu chi

Yn Macmillan, rydym yn gwybod sut y gall diagnosis canser effeithio ar bopeth, ac rydym yma i'ch cefnogi.

**Llinell Gymorth Macmillan**
Mae gennym ni gyfieithwyr, felly gallwch chi siarad â ni yn eich iaith. Dywedwch wrthym, yn Saesneg, yr iaith rydych am ei defnyddio. Gallwn helpu gyda chwestiynau meddygol, rhoi gwybodaeth i chi am gymorth ariannol, neu fod yno i wrando os oes angen rhywun i siarad â chi. Mae'r llinell ffôn gyfrinachol am ddim ar agor 7 diwrnod yr wythnos, 8am i 8pm. Ffoniwch ni ar **0808 808 00 00**.

**Gwefan Macmillan**
Mae ein gwefan yn cynnwys llawer o wybodaeth yn Saesneg am ganser. Mae mwy o wybodaeth hefyd mewn ieithoedd eraill ar **macmillan.org.uk/translations**

Gallwn hefyd drefnu cyfieithiadau ar eich cyfer chi yn unig. E-bostiwch ni ar **cancerinformationteam@macmillan.org.uk** a dywedwch beth rydych ei angen.

**Canolfannau gwybodaeth**
Mae ein canolfannau gwybodaeth a chymorth wedi eu lleoli mewn ysbytai, llyfrgelloedd a chanolfannau symudol. Ymwelwch ag un i gael y wybodaeth sydd ei hangen arnoch a siaradwch â rhywun wyneb yn wyneb. Cewch hyd i'ch canolfan agosaf ar **macmillan.org.uk/informationcentres** neu ffoniwch ni ar **0808 808 00 00**.

**Grwpiau cefnogaeth lleol**
Mewn grŵp cefnogaeth, gallwch siarad â phobl eraill wedi'u heffeithio gan ganser. Gallwch ddysgu am grwpiau cefnogaeth yn eich ardal ar **macmillan.org.uk/supportgroups** neu ffoniwch ni ar **0808 808 00 00**.

**Cymuned Ar-lein Macmillan**
Gallwch hefyd siarad â phobl eraill sydd wedi'u heffeithio gan ganser ar-lein ar **macmillan.org.uk/community** Gallwch gael mynediad iddo ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos. Gallwch rannu'ch profiadau, gofyn cwestiynau, neu ddarllen yr hyn mae pobl wedi eu postio.

## Mwy o wybodaeth yn Gymraeg

Mae gennym wybodaeth yn Gymraeg am y pynciau hyn:

**Ymdopi â chanser**

- Canser a'r coronafeirws
- Gofal Canser yn y DU
- Hawlio budd-daliadau pan mae gennych chi ganser
- Problemau bwyta a chanser
- Diwedd oes
- Gofal iechyd ar gyfer ffoaduriaid a phobl sy'n ceisio lloches
- Bwyta'n iach
- Help gyda chostau pan fydd gennych chi ganser
- Os cewch ddiagnosis o ganser
- Pobl LHDTC+ a chanser
- Sepsis a chanser
- Sgîl-effeithiau triniaeth canser
- Blinder (lludded) a chanser

**Mathau o ganser**

- Canser y fron
- Canser ceg y groth
- Canser y coluddyn mawr
- Canser yr ysgyfaint
- Canser y brostad

**Triniaethau**

- Cemotherapi
- Radiotherapi
- Llawdriniaeth

I weld y wybodaeth hon, ewch i **macmillan.org.uk/translations**

### Cyfeiriadau a diolchiadau

Mae'r wybodaeth hon wedi ei hysgrifennu a'i golygu gan dîm Datblygu Gwybodaeth Canser Cymorth Canser Macmillan. Mae wedi'i chyfieithu i'r iaith hon gan gwmni cyfieithu.

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn seiliedig ar ein cynnwys penderfyniadau triniaeth sydd ar gael yn Saesneg ar ein gwefan.

Mae'r wybodaeth hon wedi'i hadolygu gan arbenigwyr perthnasol a'i chymeradwyo gan aelodau o Ganolfan Arbenigedd Clinigol Macmillan.

Diolch hefyd i'r bobl sydd wedi eu heffeithio gan ganser a adolygodd y wybodaeth hon.

Mae'n holl wybodaeth yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Am ragor o wybodaeth am y ffynonellau a ddefnyddiwn, cysylltwch â ni yn **cancerinformationteam@macmillan.org.uk**

**Cynnwys wedi'i adolygu: 2023 Adolygiad arfaethedig nesaf: 2026**

MAC19722_Welsh

Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir gennym yn gywir ac yn gyfredol ond ni ddylid dibynnu arni yn lle cael cyngor proffesiynol arbenigol sy'n benodol ar gyfer eich sefyllfa chi. Cyn belled ag y caniateir gan y gyfraith, nid yw Macmillan yn derbyn atebolrwydd mewn perthynas â defnyddio unrhyw wybodaeth a gynhwysir yn y cyhoeddiad hwn neu wybodaeth trydydd parti neu wefannau sydd wedi'u cynnwys neu y cyfeirir atynt ynddo.

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth hon o help i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, gallwn roi gwybodaeth a chefnogaeth i chi yn eich iaith dros y ffôn. Mae ein gwasanaethau am ddim. Galwch ni ar **0808 808 00 00** (Dydd Llun-Dydd Gwener, 9am tan 8pm) a gofynnwch yn Saesneg am eich iaith.

© Cymorth Canser Macmillan 2023. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (261017),
Yr Alban (SC039907) ac Ynys Manaw (604). Hefyd yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon. Swyddfa gofrestredig: 89 Albert Embankment, Llundain, SE1 7UQ.

Trusted Information Creator
Patient Information Forum

Cancer care in the UK:
Welsh

# Cancer care in the UK

This information is about cancer care and the UK healthcare system, and where to get help and support.

It can be difficult to know what to expect from the healthcare system in the UK. This page explains your rights and how to access healthcare for cancer and other conditions.

If you have any questions about this information, ask your doctor or nurse at the hospital where you are having treatment.

You can also call Macmillan Cancer Support on **0808 808 00 00**, 7 days a week, 8am to 8pm. We have interpreters, so you can speak to us in your own language. When you call us, please tell us in English which language you need.

There is more cancer information in other languages at **macmillan.org.uk/translations**

## This information is about:

- The UK healthcare system
- If you use another language
- Cancer care in the UK
- Your rights as an NHS patient in the UK
- Helping your team understand your culture or background
- Can I choose where I have cancer treatment?
- Can I choose what cancer treatment I have?
- Can I get a second opinion?
- Can I complain about my healthcare?
- How Macmillan can help you
- More information in your language
- References and thanks

## The UK healthcare system

Most healthcare in the UK is provided by the National Health Service (NHS). The NHS includes:

**GP and community-based care**
A GP (General Practitioner) is a doctor who treats general health conditions. GPs usually work in a local centre. In English, this type of centre can have different names. It may be called a [GP practice], [GP surgery] or [medical centre]. This centre is often your first and main point of contact for healthcare. They work closely with other community-based services such as district nurses and palliative care teams.

Your GP and other community-based services treat and manage many health problems. If you need more specialised treatment, they can arrange this for you. This is called making a referral.

**Urgent and emergency care**
This includes:

- emergency help for life-threatening conditions if you phone 999
- care at an accident and emergency (A&E) department, or other urgent care centre such as a walk-in centre or minor injuries unit
- advice about urgent health problems if you call 111 (in England, Scotland or Wales).

**Specialist care**
For some health conditions, you may need advice or treatment from a healthcare professional with specialist training. When you stay in hospital for specialist treatment, this is called inpatient care. When you have specialist treatment at a clinic, or at home, this is called outpatient care.

**Pharmacists**
Pharmacists give out medicines and give advice about taking medicines. They may also give some medical advice.

**Dental care**
Dentists help look after your teeth, gums and other parts of the mouth.

**Eye care**
Optometrists help test eyesight. They prescribe and fit glasses and contact lenses. They give treatment and advice for some eye health problems, such as eye infections.

Some healthcare in the UK is available privately. Private healthcare is provided by independent companies and is separate to the NHS. You may pay for it yourself, or using medical insurance.

Healthcare services in the UK can vary depending on where you live. This can be confusing. It can be difficult to know what is available in your area and what you should be offered.

If you have questions about your care or the services in your area, ask your GP, or someone else in your healthcare team to explain. Your healthcare team includes any doctors, nurses or other healthcare professionals that look after you. They are there to help you find the care and support you need.

**Is NHS healthcare free?**
Some NHS services are always free to everyone. You never pay for:

- Emergency help for life-threatening conditions if you phone 999.
- Advice about urgent health problems if you phone 111 (in England, Scotland or Wales).
- Care at an accident and emergency (A&E) department, walk-in centre, minor injuries unit or urgent care centre.
- Testing and treatment for some types of infections and sexually transmitted diseases.
- Contraception services.
- Treatment for conditions caused by torture, female genital mutilation, and domestic or sexual violence.
- Prescriptions, if you live in Scotland.

Most other NHS services are free of charge if you usually live in the UK and are legally allowed to live here. This is called being an ordinary resident. NHS healthcare is also free if you are a refugee or applying for asylum in the UK.

You may still pay for some NHS services, such as dental care and eye care. And in England, you may have to pay for prescriptions in some situations. If you cannot pay for these, you may be able to get help with healthcare costs.

**What NHS services do I need to pay for?**
Most people have to pay for dental care and eye care. And in England, you may have to pay for prescriptions in some situations. If you cannot pay for these, you may be able to get help with healthcare costs.

**Healthcare costs for visitors to the UK**
If you do not usually live in the UK or you are visiting from overseas, you may have to pay for NHS healthcare in the UK.
You can have free NHS healthcare in the same way as an ordinary resident if you:

- are a refugee, seeking asylum or a victim of modern slavery or human trafficking
- have paid the immigration health surcharge.

Other visitors may have to pay for NHS healthcare unless it is urgent.

For more information about healthcare for refugees and people seeking asylum see our ‘Healthcare for refugees and people seeking asylum’ fact sheet at **macmillan.org.uk/translations**

### How do I get a GP appointment?

To get a GP appointment, you need to register with a GP practice. You choose the GP practice and contact them to do this.

It is important to register with a GP practice. This is your main point of contact for healthcare services. The practice understands what services are available and how these work in your area. If you need tests or specialist services, the practice can arrange these appointments.

## If you use another language

The NHS should offer:

- **A professional interpreter in the language you choose -** Interpreters translate everything your doctor says to you, and everything you want to say back. If you would like an interpreter, tell your GP practice or hospital as soon as possible. The NHS should always use professional interpreters, rather than your family or friends. This means your family can focus on being there to support you to make a decision. It also means there is less risk of getting important information wrong.
- **Translated health information -** Your healthcare team should give you written information about health and care services in a language and format that you understand.

These services are free in the NHS.

## Cancer care in the UK

In the UK, cancer care is managed by specialist teams of healthcare professionals. If you are having cancer treatment, you are not likely to meet everyone in the team. But the different healthcare professionals are all there to help plan the care you need.

You should have a main contact person in your healthcare team. They may be called your key worker and they are usually a specialist nurse. You will be given their name and contact details. If you have questions or need advice, they can help.

The team is based at a hospital. They provide care for people in hospital and at outpatient clinics.

You usually have regular appointments with 1 or 2 people from the team who are responsible for your care. Who you meet may depend on the type of treatment you need.

For example, you may meet some of the following people:

- **Surgeon** – a doctor who does operations (surgery).
- **Oncologist** – a doctor who treats people who have cancer.
- **Haematologist** – a doctor who diagnoses and treats blood disorders and cancers.
- **Radiographer** – someone who plans and gives radiotherapy, and supports people during radiotherapy treatment.
- **Clinical nurse specialist (CNS**) – a nurse who gives information about cancer, and support during treatment.

You will often also have help from other services. This can depend on what support you need at different times. For example, if cancer causes walking (mobility) problems, your GP, cancer doctor or specialist nurse may refer you to a physiotherapist. This is someone who gives advice about exercise and mobility. Or, if you have cancer that can be treated but not cured, they may refer you to a palliative care team for more support. Palliative care teams help with symptom control and end-of-life care.

We have more information about cancer care in your language in our fact sheet 'If you are diagnosed with cancer'. Visit **macmillan.org.uk/translations**

## Your rights as an NHS patient in the UK

Being treated for cancer can be overwhelming and confusing. It can help to understand what you can expect from your cancer care and NHS staff.

The NHS should be available fairly and equally to everyone. If the treatment you need is not available in your area of the UK, the NHS may arrange for you to have it elsewhere. You should not be treated unfairly or less well because of your:

- age
- disability
- sex
- sexual orientation
- gender reassignment
- marriage or civil partnership
- pregnancy
- race
- religion or belief.

**NHS care should be right for each person**
Your NHS healthcare team should offer you care, support and information that meets your needs. The team should consider what is important to you, for example your:

- preferences
- culture
- beliefs
- values.

Healthcare professionals should treat you as an individual and respect your privacy and dignity. This may be as simple as asking what name you want to be called. It also means giving you privacy during physical examinations. If you find a situation embarrassing or distressing, tell the doctor or nurse so they can help to make things more comfortable for you.

Your team should involve you in planning and making decisions about your healthcare. They should give you the information and support you need to do this. You have the right to accept or refuse treatment that is offered to you.

Your team should communicate with you in the way that is right for you. You should be given the information you need in a way that you can access and understand. For example:

- **information in a language you understand**
- **Information in a format that you need** - this might mean in audio, Braille, easy read, large print, email, or text
- **support to help you and your team communicate -** this could be an interpreter for British Sign Language (BSL) or another language, or making things easy if you have additional needs. This might include relying on lip reading, using a hearing aid, or needing a low stimulus environment.

**NHS care should be as safe and effective as possible**
Your NHS healthcare team plans your treatment carefully. The people who give you treatment should have the right skills and training. The place you are cared for should be safe and suitable.

**NHS care should be given at the right time**
The NHS aims to give treatment within certain timeframes. They aim to assess, diagnose and treat people with cancer or suspected cancer as quickly as possible.

**The NHS should keep information about you safe**
The NHS collects and saves information about you in your medical or health record. They use this information to give you safe and effective care.

The NHS has strict rules to ensure they keep your information safe, secure and confidential. You can ask for any information the NHS has about you.

## Helping your team understand your culture or background

To give you the best care and treatment, your healthcare team should:

- try to understand anything that might affect your decisions about your treatment and care
- make sure you are not disadvantaged, whatever your ethnicity or culture
- make sure that your culture or language do not prevent good communication and understanding between you and your cancer team.

There may be things to do with your culture or background that affect how you feel about your treatment or care.

Sometimes we make assumptions about other people based on what we think we know about them. These ideas or biases can stop us from hearing what the other person really thinks or wants. For example, a healthcare professional may assume you want to be treated in a certain way based on what they think your religion is. These ideas or biases can stop them from understanding what you really think or want.

If your healthcare team are not considering your needs, you can do the following:

- Talk to someone from your team, if it feels safe and comfortable to do so. Sometimes they may not realise that there is a problem. Giving feedback about this may help your team make things right.
- Explain what is happening to someone you trust. You may get support from someone close to you or a healthcare professional you know well. Or you may want to talk to people in a cancer support group or our Online Community. Sometimes it is helpful to talk to people who understand or are in a similar situation.
- Give feedback or make a complaint. If you do not want to be identified, you can give feedback and complaints without giving your name.

## Questions about cancer treatment

**Can I choose where I have cancer treatment?**
You can make choices about where you go for NHS and private healthcare, and which services you use or are referred to. But cancer treatments may only be available at certain hospitals.

The options you can choose from may be different in each area of the UK. They may also depend on how NHS funding works in that area. Your GP, cancer doctor or nurse can give you more information about this.

If you ask to be referred to a specific hospital or cancer specialist, this may affect how long you wait for an appointment. You may wait longer for an appointment with a specialist or to start cancer treatment.

**Can I choose what cancer treatment I have?**
Decisions about your cancer treatment are made together with your healthcare team. They will not give you a treatment unless you agree to it. This is called giving your consent.

Your team will offer the treatments it thinks are best in your situation. This means the most effective and least harmful treatments available.

If you disagree with the treatment plan you are offered, tell your healthcare team why this is. Ask your healthcare team to explain again why you have been offered these treatments.

Treatment decisions are often complex and based on several factors, including other medical conditions you may have. It is important for you and your healthcare team to understand all these factors. Talking this through carefully and clearly may help you and your healthcare team find a treatment plan that works for you.

If you are not able to make decisions about your treatment, or do not want to, the team should involve someone close to you. This might be members of your family or friends.

### Can I get a second opinion?

A second opinion means asking a different GP or cancer doctor whether they agree with your diagnosis or treatment. A diagnosis means finding out if you have an illness or not. A second opinion usually involves going to a different hospital or GP surgery. It is important to think about the possible benefits and disadvantages of getting a second opinion. Talk to your team about how it might affect your wellbeing.

You can ask your cancer doctor to refer you for a second opinion. The NHS does not have to provide a second opinion. But you have the right to ask for one and most doctors will be happy to refer you.

### Can I complain about my healthcare?

Many people are happy with the treatment and care they get from healthcare professionals. But sometimes mistakes happen, or things go wrong. If you are unhappy about the treatment you have received, you have the right to complain.

It is usually best to speak to the healthcare professional involved. But you can also speak to someone else in the healthcare team.

If you decide to make a formal complaint, find out about the complaints procedure. This is different in different areas of the UK. Ask your healthcare provider for a copy of the process. Or you can usually find information online.

## Getting the right care and support for you

If you have cancer and do not speak English, you may be worried that this will affect your cancer treatment and care. But your healthcare team should offer you care, support and information that meets your needs.

We know that sometimes people may face extra challenges in getting the right support. For example, if you work or have a family it can be hard to find time to go to hospital appointments. You might also have worries about money and transport costs. All of this can be stressful and hard to cope with.

We also offer Macmillan Grants to people with cancer. These are one-off payments that can be used for things like hospital parking, travel costs, childcare or heating bills.

Our free support line **0808 808 00 00** can offer advice, in your language, about your situation. You can speak to nurses, financial guides, welfare rights advisers and work support advisers.

## How Macmillan can help you

At Macmillan, we know how a cancer diagnosis can affect everything, and we are here to support you.

**Macmillan Support Line**
We have interpreters, so you can speak to us in your language. Just tell us, in English, the language you want to use. We can help with medical questions, give you information about financial support, or be there to listen if you need someone to talk to. The free, confidential phone line is open 7 days a week, 8am to 8pm. Call us on **0808 808 00 00**.

**Macmillan website**
Our website has lots of information in English about cancer. There is also more information in other languages at **macmillan.org.uk/translations**

We can also arrange translations just for you. Email us at **cancerinformationteam@macmillan.org.uk** to tell us what you need.

**Information centres**
Our information and support centres are based in hospitals, libraries and mobile centres. Visit one to get the information you need and speak with someone face to face. Find your nearest centre at **macmillan.org.uk/informationcentres** or call us on **0808 808 00 00**.

**Local support groups**
At a support group, you can talk to other people affected by cancer. Find out about support groups in your area at **macmillan.org.uk/supportgroups** or call us on **0808 808 00 00**.

**Macmillan Online Community**
You can also talk to other people affected by cancer online at **macmillan.org.uk/community** You can access it at any time of day or night. You can share your experiences, ask questions, or just read through people's posts.

## More information in your language

We have information in your language about these topics:

**Coping with cancer**

- Cancer and coronavirus
- Cancer care in the UK
- Claiming benefits when you have cancer
- Eating problems and cancer
- End of life
- Healthcare for refugees and people seeking asylum
- Healthy eating
- Help with costs when you have cancer
- If you are diagnosed with cancer
- LGBTQ+ people and cancer
- Sepsis and cancer
- Side effects of cancer treatment
- Tiredness (fatigue) and cancer

**Types of cancer**

- Breast cancer
- Cervical cancer
- Large bowel cancer
- Lung cancer
- Prostate cancer

**Treatments**

- Chemotherapy
- Radiotherapy
- Surgery

To see this information, go to **macmillan.org.uk/translations**

## References and thanks

This information has been written and edited by Macmillan Cancer Support's Cancer Information Development team. It has been translated into this language by a translation company.

The information included is based on our treatment decisions content available in English on our website.

This information has been reviewed by relevant experts and approved by members of Macmillan's Centre of Clinical Expertise.

Thanks also to the people affected by cancer who reviewed this information.

All our information is based on the best evidence available. For more information about the sources we use, please contact us at **cancerinformationteam@macmillan.org.uk**

**Content reviewed: 2023 Next planned review: 2026**

MAC19722_Welsh

We make every effort to ensure that the information we provide is accurate and up to date but it should not be relied upon as a substitute for specialist professional advice tailored to your situation. So far as is permitted by law, Macmillan does not accept liability in relation to the use of any information contained in this publication or third-party information or websites included or referred to in it.

We hope you find this information helpful. If you have any questions, we can give you information and support by telephone in your language. Our services are free. Just call us on **0808 808 00 00** (Monday-Friday, 9am to 8pm) and ask in English for your preferred language.

© Macmillan Cancer Support 2023. Registered charity in England and Wales (261017),
Scotland (SC039907) and the Isle of Man (604). Also operating in Northern Ireland. Registered office 89 Albert Embankment, London SE1 7UQ.

Trusted Information Creator

Patient Information Forum